

Cynllun Cydraddoldeb

Anabledd **crynodeb weithredol**



Manylion cysylltu

Er mwyn cael copi o'r canllawiau hyn yn y fformat o'ch dewis neu am fwy o wybodaeth cysylltwch â:-

Linda Brown/Nicola Hinton
Tîm Cydraddoldeb,
Adran y Prif Weithredwr,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holton,
Y Barri,
CF63 4RU

Ffôn: 01446 709362
Ffôn destun: 01446 741219
Ffacs: 01446 709829

Cewch gopi cyflawn o'r cynllun ar wefan y cyngor neu drwy anfon neges e-bost i:
equalities@valeofglamorgan.gov.uk



Cyflwyniad

Strategaeth a luniwyd er mwyn dod â gwasanaethau a swyddi'r cyngor o fewn cyrraedd haws i bobl anabl a phobl sy'n mynd yn anabl yw'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd. Rydym am hybu cyfle cyfartal drwy symud y rhwystrau sy'n rhoi pobl anabl o dan anfantais, ac yn benderfynol o gael deall lle'n union y mae dulliau cyflogi a gwasanaethau'n gwahaniaethu'n eu herbyn, a newid hynny. Byddwn hefyd yn sicrhau bod mwy o staff anabl. Rydym am i'n gwasanaethau gyrraedd pob rhan o'r gymuned ac yn cydnabod y bydd angen gweithredu mewn pob math o wahanol ffyrdd er mwyn cyflawni hyn. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd yn egluro'n gweledigaeth gyffredinol o gydraddoldeb a'n hagwedd tuag at gydraddoldeb anabledd yn benodol ac yn cynnwys cynllun gweithredu cwbl ymarferol.

Diben

Dod o hyd i ffyrdd o gael gwared ar bob gwahaniaethu ar sail anabledd a hybu cydraddoldeb anabledd yw diben y Cynllun. Nid addasu adeiladau ac addasu ar gyfer unigolion yw'r unig nod ond hefyd ddangos bod newid er gwell yn y diwylliant ei hun.

Rydym wedi mabwysiadu model cymdeithasol o anabledd, sy'n



priodoli'r teimlad sydd gan lawer o bobl anabl o fod wedi'u cau allan o gymdeithas i agweddau pobl eraill a rhwystrau amgylcheddol yn hytrach na'u nam neu'u cyflwr meddygol eu hunain.

Bu pobl anabl yn rhan o'r broses o'r dechrau wrth lunio'r cynllun. Cynhaliodd Cyngwrair Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro gyfarfodydd er mwyn trafod pynciau fel trafnidiaeth, cyfathrebu, addasrwydd adeiladau ac ati. Cafodd cyfarfodydd cyhoeddus eu cynnal yn sgîl hynny mewn amryw o leoedd ar hyd a lled y Fro. Bu'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghori hwn yn sail i nifer o gamau yn y cynllun gweithredu.



Grym cyfreithiol

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i:-

- sicrhau bod gan bobl anabl yr un cyfle â phobl arall.
- gael gwared ar bob gwahaniaethu ar sail annheg sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf.
- sicrhau na chaiff pobl anabl eu herlid oherwydd eu hanabledd.
- feithrin agwedd positif tuag at bobl anabl.
- annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.
- gymryd anabledd pobl i ystyriaeth hyd yn oed pan fydd hynny'n golygu ffafrio'r person anabl (e.e. darparu man parcio ar gyfer pobl anabl wrth ymyl adeilad, heb gynnig yr un cyfleusterau i ymwelwyr neu weithwyr eraill).

Mae hefyd ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyhoeddi cynllun cydraddoldeb anabledd sy'n dangos sut y bwriadant gyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae'n rhaid cynnwys pobl anabl yn y gwaith cynllunio a gweithredu cynlluniau gweithredu sy'n dangos yn union sut y bydd y cyrff yn cyflawni eu gwahanol ddyletswyddau.

Diffinio Anabledd

Mae namau'n ymrannu'n fras yn bum gwahanol grŵp:

- namau symud / corfforol
- nam ar y llygaid
- nam ar y clyw
- anawsterau dysgu
- problemau iechyd meddwl

6

Rydym yn cydnabod bod rhai pobl yn anfodlon sôn amdanynt eu hunain fel pobl anabl ac y gwahaniaethir yn erbyn rhai pobl anabl ar fwy nag un sail.

Dyma sut y mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn diffinio anabledd:

“Mae person yn anabl pan fo nam corfforol neu feddyliol arno sy'n amharu'n sylweddol ac yn y tymor hir ar ei allu i ymgymryd â gweithgareddau dyddiol arferol.”

Roedd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 wedi ehangu'r diffiniad hwn. Erbyn hyn, mae'n cynnwys pobl sy'n dioddef o HIV, canser, sglerosis ymledol neu unrhyw gyflwr cynyddol arall sy'n debyg o newid dros gyfnod o amser ac amharu'n sylweddol ar eu gallu i ymgymryd â gweithgareddau dyddiol arferol.

Tîm Cydraddoldeb

Cael gwared ar wahaniaethu ar sail annheg a phob problem arall sy'n rhwystro'r cyngor rhag cyflogi pobl a chyflwyno gwasanaethau, yw rôl tîm cydraddoldeb. Mae ei waith ar hyn o bryd yn ymdrin â phob gwahaniaethu annheg ar sail:

- rhyw
- anabledd
- hil
- crefydd
- rhywioldeb
- y Gymraeg
- oedran

Asesu Effaith Cydraddoldeb

Mae dyletswydd arnom i ystyried effaith bosibl polisiau a dulliau gweithredu'r cyngor ar ei staff a'r gymuned fel ei gilydd. Gan hynny, byddwn yn asesu pob prif bolisi a dull gweithredu cyfredol a newydd drwy gynnal asesiad effaith cydraddoldeb. Dyma broses sy'n asesu effaith ein polisiau a'n harferion ar unigolion a grwpiau perthnasol.



Prynu

Rydym yn datblygu manylebau, telerau ac amodau sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb er mwyn cael eu cynnwys yn ein contractau â darparwyr gwasanaethau allanol. Byddwn yn adolygu prif gcontractau bob blwyddyn.

Cyflogi

8

Rydym am gyflogi, datblygu a chadw mwy o staff anabl, ac er mwyn meithrin agwedd bositif tuag at anabledd yn y cyngor, byddwn yn hyrwyddo'r model cymdeithasol.

Byddwn yn defnyddio symbol '✓ ✓' y Ganolfan Byd Gwaith ar ein holl hysbysebion am swyddi er mwyn dangos ein bod yn fodlon cyfweld â phob ymgeisydd anabl sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Byddwn hefyd yn cysylltu â Remploj ac Ymddiriedolaeth Shaw er mwyn helpu pobl anabl sy'n chwilio am waith i baratoi ar gyfer cyfweiliad.

Byddwn yn addasu ar gyfer staff presennol a newydd yn ôl y gofyn, pan fo hynny'n rhesymol. Byddwn yn ymgynghori â'r Ganolfan Byd Gwaith yn



rheolaidd ac yn dilyn ei chynllun Mynediad i Waith er mwyn cwblhau'r gwaith addasu.

Addasrwydd adeiladau

Rydym wedi archwilio'n hadeiladau'n ofalus er mwyn gweld a fo'n hawdd i bobl anabl eu defnyddio. Mae arian wedi'i glustnodi ar gyfer gwella adeiladau lle y mae'r galw mwyaf am hynny. Rydym hefyd wedi llunio canllawiau ar wella ein hadeiladau ar gyfer ymwelwyr anabl, a chafodd rheolwyr adeiladau eu hyfforddi i gynnwys gwaith addasu wrth gynnal a chadw a gwella adeiladau'n gyffredinol.

Darparu Gwasanaethau

Fel sefydliad sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd y mae'r Cyngor am:

- sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn decach i bobl anabl ac yn haws i bobl anabl eu defnyddio;
- annog pobl anabl i gymryd mwy o ran mewn bywyd cyhoeddus;
- sicrhau bod pobl anabl y gymuned yn fwy bodlon ar wasanaethau.



Cyfathrebu

Cewch hyd i wybodaeth benodol ar gyfer pobl anabl ar wefan wobrweddig y Cyngor. Mae manylion am bolisiau cydraddoldeb anabledd ac arferion cyflogi (sef yr hyn y gallai ymgeiswyr a staff anabl ei ddisgwyl). Cewch wybodaeth hefyd am addasrwydd a chyfleusterau llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ac ychydig o eiriau gan aelod anabl o staff am ei brofiad o weithio i'r Cyngor. Mae gwefan y Cyngor yn cynnig dewis o feintiau ffont a 'thestun yn unig' i bobl â nam ar eu llygaid. Bydd yn darparu testun mwy o faint mewn lliwiau sy'n creu gwell cyferbyniad rhwng y testun a'r cefndir.

Y Ganolfan Gyswllt a siopau-un-stop

Rydym wedi sefydlu canolfan gyswllt er mwyn gweddnewid y math o wasanaeth y bydd y Cyngor yn ei roi i'w gwsmeriaid. Mae gweithwyr y Ganolfan wedi cael eu hyfforddi ynglŷn â chydraddoldeb, a bwriadwn ddatblygu rhaglenni hyfforddi arbenigol ar eu cyfer yn ystod y tair blynedd nesaf.

Rydym hefyd yn gobeithio sefydlu nifer o siopau-un-stop mewn trefi fel y bo'n haws defnyddio'n gwasanaethau. Bydd gan bobl anablais yn y broses gynllunio er mwyn i ni gael sicrhau bod yr adeiladau'n addas ar eu cyfer.



Addysg

Llywodraethwyr ysgolion sy'n gyfrifol am lunio polisiâu cydraddoldeb anabledd. Cynhelir arolwg yn 2010 o dan oruchwyliaeth Pennaeth Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Parcio a Thrafnidiaeth

Yn 2010, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau ar addasu cerbydau trwyddedig ar gyfer defnyddwyr cadeiriâu olwyn. Byddwn wedyn yn llunio polisi er mwyn sicrhau body cyfarwyddyd hwn yn cael ei ddilyn.

Bydd y Cyngor yn darparu nifer o fannau parcio ar gyfer pobl anabl ar hyn o bryd. Bwriadwn adolygu'r cynllun cyn bo hir er mwyn trafod y posibilrwydd o ddarparu hefyd ar gyfer pobl sy'n dal bathodyn glas ar ran person anabl sy'n methu â gyrru. Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno cosb sifil am gamddefnyddio mannau parcio ar gyfer pobl anabl.



Chwaraeon a Hamdden

Penodwyd Swyddog Chwaraeon Anabledd amser llawn yn Rhagfyr 2009 er mwyn cael symud cynlluniau ym maes chwarae a chwaraeon yn eu blaen. Bwriadwn ddarparu rhagor o hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ar gyfer staff canolfannau hamdden a chyrsgau hyfforddi ar gyfer perfformwyr anabl.

12

Gofal Cymdeithasol

Mae taliadau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn rhai preswyl wedi'u seilio ar hyn o bryd ar allu'r cleient i dalu. Bydd y taliadau'n cael eu pennu drwy ddilyn cyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad sydd i'w adolygu cyn bo hir. Pan fydd y cyfarwyddyd newydd ar gael, byddwn yn sicrhau bod gan bobl anabl ran yn y broses

ymgyngori. Mae apeliadau'n erbyn taliadau'n dilyn tri cham, a bydd y cam olaf yn gofyn am ddadlau'r achos gerbron panel o gynghorwyr. Caiff y broses hon ei hadolygu fel rhan o'r cynllun gweithredu er mwyn sicrhau ei bod yn deg.



Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd

Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ar gyfer ei staff yn ogystal â chysiau ymwybyddiaeth o'r byddar, laith Arwyddion Prydain ac ymwybyddiaeth weledol. Mae'n rhaid i reolwyr sy'n dilyn cysiau hyfforddiant recriwtio hefyd ddilyn hyfforddiant cydraddoldeb anabledd, a bydd yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei drafod yn ystod sesiynau adolygu datblygiad personol. Rydym newydd lansio cwrs ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ar gyfer staff, ar y cyd â MIND yn y Fro.

Byddwn yn ceisio denu mwy o bobl i ddilyn ein cysiau cydraddoldeb anabledd ac yn codi ymwybyddiaeth o anabledd a'r problemau sy'n rhwystro pobl anabl rhag manteisio ar swyddi a gwasanaethau. Byddwn hefyd yn hyrwyddo'r model cymdeithasol o anabledd ac yn gweithio dros sefydlu egwyddor cydraddoldeb ym mhob rhan o'r Cyngor.

Canmoliaeth a Chwynion

Os ydych yn teimlo ein bod wedi methu â chydymffurfio â'n gofynion cyfreithiol o dan y cynllun hwn, cewch roi gwybod i ni drwy gysylltu â:

Nicola Hinton/Linda Brown

Swyddogion Cydraddoldeb Corfforaethol

Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig,

Heol Holton, y Barri CF63 4RU Ffôn: 01446 709803

E-bost: LJBrown@valeofglamorgan.gov.uk

NHinton@valeofglamorgan.gov.uk

Os yw eich cŵyn yn ymwneud â gwasanaethau, y mae tri cham i'w dilyn er mwyn ei lleisio. Yn gyntaf oll, dylech gael gair â'r adran berthnasol (un ai drwy alw heibio neu drwy ffonio, ysgrifennu neu anfon neges ffacs neu e-bost). Cewch fanylion llawn am y drefn gwyno ar wefan y Cyngor.

Arolwg

14

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn bob tair blynedd ac yn cyhoeddi adroddiad ar y cynnydd bob blwyddyn ar ein gwefan.